

Ymchwil i'r galw am is-deitlo Cymraeg yng Nghymru



Ymchwil i'r galw am is-deitlo
Cymraeg yng Nghymru

£9.99

ISBN 0 900634 82 0

Mehafin 2001

Gwnaethpwyd mewn Partneriaeth gyda **S4C**

Rhagair

Deillia'r ymchwil yma o bartneriaeth rhwng S4C ac RNID Cymru, dau gorff a oedd yn awyddus i ddarganfod os oedd angen a galw am wasanaeth is-deitlo cynhwysfawr yn y Gymraeg.

Mae S4C yn darparu gwasanaeth darlledu drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg ac am estyn cyfle i'r di-Gymraeg a phobl fyddar a thrwm eu clyw i wyllo'r rhaglenni gyda chymorth is-deitlau Saesneg. Hefyd, fel rhan o'r gwasanaeth darlledu, mae S4C yn darparu is-deitlau ar Deletestun 889 mewn Cymraeg syml fel cymorth ychwanegol ar gyfer dysgwyr.

Mae bywydau llawer o bobl fyddar a thrwm eu clyw wedi eu trawsnewid gan is-deitlau. Bydd is-deitlau'n eu cadw'n hyddysg, ehangu eu profiadau ac yn bwysicaf oll, efallai, yn eu galluogi i rannu'r profiadau rheini y mae pobl sy'n medru clywed yn eu cymryd yn ganiataol. Mae teledu yn brif ffynhonnell o wybodaeth ac addysg yn ogystal a bod yn adloniant. Fe ddarpara'r teledu gyswllt hollbwysig gyda'r byd y tu allan gan ffurfio'r cysylltiadau diwylliannol sy'n ein hymrwymo i'n gilydd fel cymdeithas. Does ryfedd, felly, bod gwylwyr byddar a thrwm eu clyw yn ystyried y cynnydd mewn darpariaeth is-deitlau ar deledu fel un o'r gwelliannau pwysicaf o ran ansawdd bywyd, yn ystod y 10 mlynedd diwethaf.

Darpara RNID Cymru ystod o wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg ond mae eu gwybodaeth yn gyfyng am y nifer o siaradwyr Cymraeg byddar a thrwm eu clyw a'u anghenion penodol.

Mae gan S4C ymrwymiad i ddarparu is-deitlau safonol ar gyfer eu rhaglenni ac mae RNID Cymru ac RNID yn ymwneud â materion ac ymgyrchoedd is-deitlo. Gyda'r datblygiadau ar lwyfannau cebl a lloeren a lawnsio teledu digidol yn ddiweddar, mae'r RNID yn gweithio i geisio sicrhau nad yw pobl fyddar a thrwm eu clyw yn cael eu gwthio o'r neilltu yn sgîl y datblygiadau yn y dechnoleg newydd yma.

Mae'r ymchwil hwn yn gam pwysig tuag at ddeall ac ymateb i anghenion pobl fyddar a thrwm eu clyw yng Nghymru.

Huw Jones

Jim Edwards

Prif Weithredwr
S4C

Cyfarwyddwr
RNID Cymru

Cynnwys	Tudalen
Rhagair	
1. Rhagarweiniad	6
2. Pynciau allweddol	7
3. Y sampl	8
4. Nodweddion yr ymatebwyr	8
4.1 oedran / rhyw	
4.2 lefel colled clyw	
4.3 iaith o ddewis / gallu i siarad a darllen Cymraeg	
5. Is-deitlau Saesneg ar raglenni Saesneg	12
5.1 gwybodaeth am / defnydd o is-deitlau Saesneg ar raglenni Saesneg	
5.2 rhesymau am ddefnyddio is-deitlau Saesneg gyda rhaglenni Saesneg	
5.3 sut y darganfu / darganfydda pobl am is-deitlo	
5.4 defnydd o is-deitlau Saesneg ar raglenni Saesneg yn y dyfodol	
6. Is-deitlau Saesneg ar raglenni Cymraeg	17
6.1 is-deitlau capsiwn caeédig Saesneg ar raglenni Cymraeg	
6.2 is-deitlau capsiwn agored Saesneg	
7. Is-deitlau Cymraeg ar gyfer Dysgwyr ar raglenni Cymraeg	20
7.1 defnydd presennol o is-deitlau Cymraeg ar gyfer Dysgwyr	
7.2 defnydd o is-deitlau Cymraeg ar gyfer Dysgwyr yn y dyfodol	
8. Diddordeb a gallu ymatebwyr i ddefnyddio is-deitlau cynhwysfawr Cymraeg yn y dyfodol	22
8.1 diddordeb mewn is-deitlau cynhwysfawr Cymraeg	
8.2 galw am / gallu i ddefnyddio is-deitlau cynhwysfawr Cymraeg	
9. Diweddglo	24
10. Holiadur is-deitlau ar y teledu	25

1. Rhagarweiniad

Ar hyn o bryd mae tua 60% o ddarlledu Saesneg yn cael ei is-deitlo ar y bedair prif sianel. Tra cynllunir is-deitlau ar gyfer pobl fyddar a thrwm eu clyw yn benodol, mae yna ystod eang o bobl yn eu defnyddio. Efallai na fyddai rhai o'r bobl hyn yn ystyried eu hunain yn fyddar na'n drwm eu clyw, ac fe fyddant yn defnyddio is-deitlau oherwydd "bod pobl ar y teledu yn mwmlan", neu "bod gormod o sŵn cefndir ar y teledu". Mae'r ddau reswm yma, wrth gwrs, yn gysylltiedig â cholled clyw. Bydd pobl eraill yn defnyddio is-deitlau ar gyfer rhaglenni ble mae acenion rhanbarthol / cenedlaethol gref neu pryd y bydd angen deall geiriau caneuon fel ar *Top of the Pops*.

Mae S4C yn ailddarlledu is-deitlau Teletestun ar gyfer pobl fyddar a thrwm eu clyw yn ystod darlledu cynnyrch Saesneg, sy'n cynnwys rhaglenni yn deillio o ddarpariaeth Sianel Pedwar. Ymdrecha S4C i ailddangos yr is-deitlau teletestun ar gyfer rhaglenni a ddangosir ar Sianel Pedwar pryd bynnag y bo rhaglen Sianel Pedwar yn bresennol fel rhan o wasanaeth S4C. Mae S4C yn darlledu rhaglenni iaith Gymraeg ar ddau wasanaeth ar wahân, gan ddarparu is-deitlau Saesneg ar dros 70% o raglenni Cymraeg ar y gwasanaeth analog ac mae'n curo'r targedau penodol ar gyfer y gwasanaeth digidol.

Mae is-deitlo hefyd ar gael fel gwasanaeth cyfyng ar S4C 2, lle y darparir is-deitlau Saesneg ar tua 17% o'r sesiynau wedi eu recordio o'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r is-deitlau hyn yn galluogi pobl sy'n clywed ond sy'n siaradwyr di-Gymraeg neu'n deall ychydig o Gymraeg yn unig, yn ogystal â phobl fyddar a thrwm eu clyw, i ddilyn y rhaglenni drwy gyfrwng y Saesneg. Darpara S4C hefyd is-deitlau Cymraeg ar gyfer Dysgwyr am gyfnod o 10 awr yr wythnos ar gyfartaledd. Ar hyn o bryd nid yw S4C yn darparu is-deitlau cynhwysfawr yn yr iaith Gymraeg.

Prif bwrpas yr ymchwil hwn yw darganfod os oes galw am is-deitlau cynhwysfawr yn y Gymraeg ar gyfer rhaglenni Cymraeg. Gofidiai RNID Cymru bod pobl fyddar a thrwm eu clyw yng Nghymru, gyda Chymraeg fel eu dewis iaith, yn cael eu hamddifadu o fwynhau rhaglenni Cymraeg oherwydd taw dim ond is-deitlau Saesneg neu is-deitlau syml yn y Gymraeg sydd ar gael iddynt. Roedd S4C hefyd yn awyddus i ddarganfod os oedd yna bobl a fyddai'n manteisio o gael is-deitlau cynhwysfawr Cymraeg. Roeddynt yn enwedig yn awyddus i glustnodi'r nifer o bobl a ddymunai gael is-deitlau Cymraeg ac a oedd gyda'r gallu digonol i ddarllen is-deitlau Cymraeg fel eu bod yn medru eu defnyddio. Mae'r ymchwil hefyd yn edrych ar hysbysebu ac agweddau eraill o'r defnydd o is-deitlau yng Nghymru.

Seiliwyd y prosiect yn ystod y cyfnod o fis Mai hyd at fis Hydref 2000.

Prif amcanion y prosiect oedd:

- 1) darganfod gwybodaeth craidd am ymwybyddiaeth pobl am is-deitlau Saesneg a'u defnydd ohonynt, ac am is-deitlau Cymraeg ar gyfer Dysgwyr sy'n bodoli yng Nghymru;
- 2) clustnodi'r defnydd a'r galw am is-deitlo ar gyfer pobl fyddar a thrwm eu clyw ac ar gyfer defnyddwyr Cymraeg eu hiaith;
- 3) clustnodi p'run ai oes galw am/angen is-deitlau cynhwysfawr Cymraeg ar raglenni teledu Cymraeg S4C;
- 4) cyflwyno'r pynciau sy'n codi yn sgîl yr ymchwil.

2. Pynciau allweddol

1. Roedd dros 1,000 o ymatebwyr i'r arolwg, yn fras yn cynnwys dau is-grŵp o'r un maint; (a) aelodau a chefnogwyr RNID Cymru a (b) gwylwyr S4C (pobl ar restr post cylchgrawn S4C sef *Sgrin*). Yr oedd yr ymatebwyr hyn yn adlewyrchu grwpiau tra gwahanol felly nodir rhai o'r canlyniadau ar wahân.
2. Roedd dros 90% o ymatebwyr RNID Cymru (550 o bobl) i'r arolwg yn fyddar neu'n drwm eu clyw. Yn y sampl hwn, fodd bynnag, cymharol ychydig o bobl a oedd yn rhestru Cymraeg fel iaith yr oeddynt yn gyfforddus yn ei defnyddio neu a allent ddarllen yn ddigon da i ddefnyddio is-deitlau cynhwysfawr Cymraeg.
 - Defnyddia 70% ohonynt is-deitlau pan fyddant yn gwylio teledu (yn Saesneg)
 - Dywed 4% mai'r Gymraeg yw'r iaith rwyddaf iddynt gyda thua 6% yn dweud eu bod yn darllen y Gymraeg yn rhugl a 6% ychwanegol yn dweud eu bod yn medru darllen Cymraeg yn ddigonol
 - Defnyddia 5% is-deitlau Cymraeg ar gyfer Dysgwyr ac fe ddywed 7% yr hoffent gael is-deitlau cynhwysfawr Cymraeg
3. Dywedodd 59% o ymatebwyr S4C (565 o bobl) taw Cymraeg oedd yr iaith rwyddaf iddynt gydag ychydig dros 60% yn dweud eu bod yn medru darllen Cymraeg yn rhugl. I'r gwrthwyneb, dim ond 23% o'r rhain a oedd yn fyddar neu'n drwm eu clyw.
 - Defnyddia 9% ohonynt is-deitlau pan fyddant yn gwylio teledu (yn Saesneg), a defnyddia 25% ohonynt yr is-deitlau o leiaf unwaith yr wythnos
 - Y Gymraeg yw'r iaith rwyddaf i 59% ohonynt a dywed 60% ohonynt eu bod yn darllen Cymraeg yn rhugl ac 17% ychwanegol eu bod yn darllen Cymraeg yn ddigonol
 - Defnyddia 20% ohonynt is-deitlau Saesneg o hyd gyda rhaglenni Cymraeg a defnyddia 20% arall yr is-deitlau weithiau. Defnyddia 31% ohonynt is-deitlau Cymraeg ar gyfer Dysgwyr
 - Hoffai 41% gael cyfle i roi cynnig ar is-deitlau cynhwysfawr Cymraeg – yr oedd 25% eisiau is-deitlau cynhwysfawr Cymraeg ac 16% ychwanegol eisiau rhoi cynnig ar y rhain.
4. At ei gilydd, mynegodd rhyw draean o'r holl ymatebwyr (323 o bobl), ddiddordeb mewn defnyddio neu rhoi cynnig ar ddefnyddio is-deitlau cynhwysfawr Cymraeg. Yn bennaf, ymatebwyr i arolwg S4C oedd y rhain.
5. Roedd gan 182 (17%) o'r holl ymatebwyr y sgiliau angenrheidiol yn y Gymraeg i'w galluogi i ddefnyddio is-deitlau cynhwysfawr Cymraeg â'r awydd i roi cynnig ar yr is-deitlau neu wneud defnydd ohonynt. Fe adlewyrcha hyn dros 30% o grŵp arolwg S4C.
6. Roedd 54 o bobl (5% o'r holl ymatebwyr) naill ai'n bobl fyddar neu'n drwm eu clyw, gyda'r sgiliau iaith Cymraeg angenrheidiol i'w galluogi i ddefnyddio'r is-deitlau cynhwysfawr Cymraeg â'r awydd i roi cynnig ar yr is-deitlau neu wneud defnydd ohonynt. Mae'r grŵp yma yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng gwylwyr byddar a thrwm eu clyw S4C a siaradwyr Cymraeg RNID Cymru.
7. Roedd rhywfaint o ddefnydd ac o diddordeb mewn is-deitlau Cymraeg ar gyfer Dysgwyr – 147 (13%) o bobl yn eu defnyddio ar hyn o bryd gyda 238 ychwanegol (21%) o bobl eisiau rhoi cynnig arnynt. Doedd 49% o ymatebwyr ddim yn ymwybodol o fodolaeth is-deitlau Cymraeg ar gyfer Dysgwyr, (33% o ymatebwyr S4C). O'r rheini sy'n defnyddio'r is-deitlau Cymraeg ar gyfer Dysgwyr ar hyn o bryd mae dros 60% ohonynt yn darllen Cymraeg yn dda iawn (95 o bobl, 8% o ymatebwyr yr arolwg). Crybwyllodd o ddeutu 30% o'r rhai sy'n eu defnyddio golled clyw fel rheswm dros eu defnyddio.

3. Y sampl

Seiliwyd yr arolwg ar holiadur drwy'r post, ac fe gytunodd S4C ac RNID Cymru ar ei gynnwys a'i flaenbrofi ar nifer o bobl fyddar a thrwm eu clyw. Amgaeir gopi o'r holiadur fel Atodiad 1.

Cylchredwyd yr holiadur i bob aelod o RNID Cymru ac i un o bob pedwar o ddarllenwyr *Sgrin*, cylchgrawn S4C, gan wneud cyfanswm o 10,000 o bobl. Dosbarthwyd yr holiaduron yng nghanol mis Mai 2000.

Tabl 1 Ffrâm sampl

Ffrâm sampl	Nifer a dderbyniodd holiaduron	Nifer o holiaduron wedi'u cwblhau a ddychwelwyd	Cyfradd ymateb
Aelodaeth RNID (aelodau i gyd a phobl yng Nghymru yn ymddiddori yn yr RNID)	1,500	550	36.6%
S4C (1/4 o restr postio <i>Sgrin</i>)	8,500	565	6.6%

Fel y dangosir yn y tabl, dychwelwyd 1,115 o holiaduron. Roedd y grwpiau sampl yn wahanol iawn i'w gilydd ac mewn bron bob achos cafodd y ddau sampl eu dadansoddi ar wahân.

Roedd y gyfradd dychwelyd ymysg cefnogwyr ac aelodau o RNID Cymru yn uchel gan fod y mwyafrif o bobl fyddar a thrwm eu clyw yn ddefnyddwyr selog o is-deitlau. Mae o fantais iddynt felly i sicrhau parhâd a chryfhâd y gwasanaeth is-deitlo.

Dychwelodd llai na 7% o ddarllenwyr y cylchgrawn *Sgrin* yr holiadur. Er bod y raddfa dychwelyd hyn yn is na'r un gan aelodau RNID, mae'n gyson gyda'r gyfradd dychwelyd ar gyfer holiadur arolwg blaenorol gan *Sgrin*. Cafwyd ymateb o 12% ar gyfer holiadur arolwg diweddar a gynhaliwyd ymysg darllenwyr y cylchgrawn *Sgrin*.

4. Nodweddion yr ymatebwyr

4.1 oedran/rhyw

Mae'r dosbarthiad oedran yn iau nag a fyddid wedi'i ddisgwyl o ystyried y tuedd i bobl fyddar a thrwm eu clyw fod ymhlith bobl hŷn y boblogaeth. Mae dros hanner pobl fyddar a thrwm eu clyw dros 65 mlwydd oed.

Tabl 2 Oedran

Grŵp Oedran	S4C		RNID Cymru		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%
<24	86	15	46	8	132	12
25 - 44 oed	142	25	117	21	259	23
45 - 64 oed	191	34	167	30	358	32
65 a throsodd	134	24	214	39	348	31
Dim ymateb	12	2	6	2	18	2
Cyfanswm	565	100	550	100	1115	100

Tabl 3 Rhyw

Rhyw	S4C		RNID Cymru		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%
Gwryw	217	38	238	43	455	41
Benyw	320	57	272	49	592	53
Dim ymateb	28	5	40	8	68	6
Cyfanswm	565	100	550	100	1115	100

4.2 lefel colled clyw

Gofynnwyd amryw o gwestiynau i ymatebwyr er mwyn clustnodi p'run ai yr oeddynt wedi dioddef unrhyw lefel o golled clyw. Mae un o bob saith person yn y Deyrnas Unedig yn dioddef colled clyw ond mae llawer o bobl yn gwrthod cydnabod bod anhawsterau ganddynt. (Er enghraifft, dim ond dwy filiwn sydd gyda chymorth clyw er y byddai pum miliwn o bobl yn manteisio o gael un.)

Gofynnwyd cwestiwn cyffredinol er mwyn darganfod rhagor o wybodaeth am golled clyw y bobl na fuasant yn diffinio'u hunain yn fyddar na'n drwm eu clyw:

“A oes gennych unrhyw broblem gyda'ch clyw? Er enghraifft, a fyddwch yn cael anhawster i ddilyn beth fydd pobl yn ei ddweud mewn lle swllyd neu a fyddwch yn cael trafferth i glywed y teledu?”

Er yr ymddengys y cwestiwn hwn braidd yn amwys, un y gall unrhyw un gytuno ag ef, mae'n gwestiwn y mae ymchwil wedi dangos sy'n clustnodi'r bobl hynny a fydd yn dechrau dioddef colled clyw yn ogystal â'r rhai gyda lefel uwch o golled clyw.

Tabl 4 Rhywfaint o golled clyw

Rhywfaint o golled clyw*	S4C		RNID Cymru		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%
Colled clyw	358	66	492	95	850	80
Cyfanswm**	543		515		1058	

*Yn seiliedig ar hunan-ddosbarthiad – ateb yr ymatebwyr i'r cwestiwn, “A oes gennych unrhyw broblem gyda'ch clyw? Er enghraifft, a fyddwch yn cael anhawster i ddilyn beth fydd pobl yn ei ddweud mewn lle swllyd neu a fyddwch yn cael trafferth i glywed y teledu?”

**Cyfanswm a atebodd y cwestiwn.

Cynlluniwyd cwestiwn arall i glustnodi'r bobl hynny a fyddai'n cydnabod eu bod yn fyddar neu'n drwm eu clyw. Gofynnwyd i ymatebwyr i ddiffinio'u hunain ar sail y ffaith eu bod yn hollol fyddar, yn ddifrifol fyddar, yn drwm eu clyw neu'n medru clywed.

Tabl 5 Graddau o golled clyw

Graddau o golled clyw*	S4C		RNID Cymru		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%
Hollol fyddar	7	2	205	39	212	21
Difrifol fyddar	20	4	116	22	136	14
Trwm eu clyw	79	17	170	32	249	25
Clywed	360	77	37	7	397	40
Cyfanswm**	466	100	528	100	994	100

*Yn seiliedig ar hunan ddiffiniad yr ymatebwyr wrth ateb y cwestiwn "Nodwch os ydych yn medru clywed, yn hollol fyddar, yn ddifrifol fyddar iawn neu'n drwm eich clyw os gwelwch yn dda".

**Cyfanswm a atebodd y cwestiwn.

Roedd trydydd cwestiwn yn holi os oedd pobl yn defnyddio unrhyw declynnau i'w cynorthwyo i glywed y teledu. Dangosir y canlyniadau yn Nhabl 6.

Tabl 6 Defnydd o gymorthion clyw/teclynnau eraill ar gyfer gwyllo'r teledu*

Math o gymorth	S4C		RNID Cymru		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%
Troi'r sain i fyny	69	12	114	21	183	16
Darllen gwefusau	8	1	143	26	151	14
Teclyn gwrando ar y teledu**	8	1	106	19	114	10
Cymorth clyw	47	8	293	53	340	30
Cyfanswm***	565		550		1115	

*Fe allai bobl fod wedi ticio mwy nag un blwch gan nad oedd unrhyw garfannau nad oeddynt yn cyd-fynd.

**Gofynnodd cyfanswm o 47 o bobl am wybodaeth am declynnau gwrando ar y teledu, niferoedd cytbwys o grwpiau S4C ac RNID.

***Cyfanswm grŵp sampl, gan nad ymatebodd bawb i'r cwestiwn.

Doedd hi'n fawr o syndod, er mai sampl yr RNID oedd gyda'r lefel uchaf o golled clyw o gymharu â sampl holiadur S4C, fod gan ymatebwyr S4C lefel uwch o golled clyw na'r boblogaeth ar y cyfan.

Dengys Tabl 4, 5 a 6 fod dros 60% o ymatebwyr S4C â rhyw lefel o golled clyw, gyda 23% yn cydnabod y golled ac 8% yn gwisgo cymorthion clyw. Ymysg yr holl boblogaeth mae 20% o oedolion yn fyddar neu'n drwm eu clyw ond dim ond rhyw 3% sydd gyda chymorthion clyw. Yn amlwg, roedd gwylwyr S4C sydd â cholled clyw yn fwy tebygol o ymateb i'r holiadur.

4.3 iaith o ddewis/y gallu i siarad a darllen Cymraeg

Er mwyn penderfynu a fyddai pobl yn medru ymdopi gyda'r cyfanswm o destunau Cymraeg o fewn is-deitlau cynhwysfawr, gofynnwyd amryw o gwestiynau i olrhain gallu pobl i ddarllen testunau Cymraeg. Roedd pryder na fyddai llawer o siaradwyr Cymraeg â'r sgiliau darllen Cymraeg angenrheidiol i ddefnyddio is-deitlau cynhwysfawr Cymraeg. Dangosodd yr arolwg:

- a gwblhawyd yr holiadur yn Gymraeg
- pa iaith yr oedd yr ymatebwyr yn fwyaf cyfforddus yn ei defnyddio
- gallu'r ymatebwyr i ddarllen Cymraeg, ac
- ystod y deunydd a ddarllenasant yn Gymraeg.

Tabl 7 Ym mha iaith y cwblhawyd yr holiadur

	S4C		RNID Cymru		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%
Cymraeg	294	52	16	3	310	28
Saesneg	271	48	534	97	805	72
Cyfanswm	565	100	550	100	1115	100

Fel y gwelir, roedd bron pawb a gwblhaodd yr holiadur yn Gymraeg yn ymatebwyr S4C. Ychydig iawn o aelodau RNID Cymru a ddewisodd y fersiwn Cymraeg o'r holiadur.

Tabl 8 Yr iaith yr oedd ymatebwyr yn fwyaf cyfforddus yn ei defnyddio*

	S4C		RNID Cymru		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%
Cymraeg	333	59	24	4	357	32
Saesneg	249	44	451	82	700	63
Iaith arall ar lafar	1		2		3	
Iaith Arwyddion Prydain	5	1	101	18	106	10
Iaith arwyddion arall	-		14	3	14	1
Cyfanswm	565	*	550	*	1115	*

*Ticiodd rhai pobl fwy nag un ateb

Tabl 9 Gallu i ddarllen Cymraeg

A fedrwch ddarllen Cymraeg?	S4C		RNID Cymru		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%
Gallaf, yn rhugl	349	62	33	6	382	34
Gallaf, yn ddigonol	95	17	34	6	129	12
Gallaf, ond nid yw'n rhwydd	75	13	75	14	150	13
Na allaf	40	7	392	71	432	39
Cyfanswm	565	99	550	101	1115	100

Tabl 10 Gallu yn y Gymraeg

	S4C		RNID Cymru		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%
Gallaf ddeall, siarad, ysgrifennu a darllen Cymraeg yn dda iawn	287	51	16	3	307	27
Gallaf ddeall, siarad, ysgrifennu a darllen Cymraeg yn eithaf da	155	27	30	5	185	17
Gallaf ddeall, siarad, ysgrifennu a darllen ychydig o Gymraeg	51	9	28	5	79	7
Gallaf ddeall a siarad ychydig o Gymraeg	20	4	22	4	42	4
Gallaf ddeall ychydig o Gymraeg	30	5	96	17	126	11
Ni allaf ddeall na siarad Cymraeg	17	3	343	62	360	32
Heb ymateb	5	1	15	4	20	2
Cyfanswm	565	100	550	100	1115	100

Cwblhawyd ychydig dros 300 o holiaduron yn y Gymraeg, gyda thros 350 o ymatebwyr yn datgan mai Cymraeg yr oeddynt fwyaf cyffyrddus yn ei defnyddio. Ym mha ffordd bynnag yr holwyd y cwestiwn, yr oedd tua 300-350 o bobl gyda sgiliau darllen Cymraeg da a'r gallu i ymdopi ag is-deitlau Cymraeg, sef traean o'r arolwg (60% o sampl S4C). Yr oedd y rhan fwyaf o'r rhain yn ymatebwyr S4C. Ni fyddai aelodau RNID Cymru mor debygol o ddefnyddio is-deitlau Cymraeg ac/neu feddu ar y sgiliau angenrheidiol i ddefnyddio is-deitlau Cymraeg er bod llawer mwy ohonynt yn fyddar.

Tabl 11 Mathau o ddeunydd darllenwyd yn Gymraeg

	S4C		RNID Cymru		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%
Llyfrau	316	56	25	5	341	31
Papurau Newydd	307	54	24	4	331	30
Cylchgronau	343	61	31	6	374	34
Llythyron/Gohebiaeth	304	54	24	4	328	29
Ffurflenni/Taflenni	300	53	33	6	333	30
Dim/heb ymateb	99	18	478	87	577	52
Cyfanswm	565	*	550	*	1115	*

*Ticiodd rhai bobl fwy nag un ateb

5. Is-deitlau Saesneg ar raglenni Saesneg

5.1 gwybodaeth am/defnydd o is-deitlau Saesneg ar raglenni Saesneg

Yr oedd lefel uchel iawn o bobl yn berchen ar deledu â Theletestun yn yr arolwg – 89% o ymatebwyr S4C a 92% o ymatebwyr RNID. Yr oedd yna hefyd ymwybyddiaeth uchel o sut i ddod o hyd i is-deitlau capsïwn caeedig – 89% o ymatebwyr S4C a 92% o ymatebwyr RNID. Fodd bynnag, yr oedd 60 o bobl sef 5% o'r arolwg heb fawr ddim gwybodaeth am is-deitlo ac wedi holi am ragor o wybodaeth ar sut i'w dderbyn. O'r rheini nad oeddynt yn defnyddio is-deitlau Saesneg ar hyn o bryd, dywedodd 80 o bobl (7%) eu bod am geisio'u defnyddio yn y dyfodol (gweler Tabl 19).

Mae'r arolwg hwn yn dangos gwelliant o gymharu â lefelau blaenorol o ymwybyddiaeth a nodwyd gan RNID. Yn y Deyrnas Unedig yn 1998 dim ond 77% o bobl a oedd yn berchen teledu â Theletestun a 59% a wyddai sut i ddod o hyd i is-deitlau.¹

Dengys Tabl 12 pa mor aml y bydd ymatebwyr yn defnyddio is-deitlau yn y ddau grŵp sampl.

Tabl 12 Y defnydd o is-deitlau Saesneg gyda rhaglenni Saesneg

	S4C		RNID Cymru		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%
Ydw, pan fo hynny'n bosib	49	9	363	69	412	38
Ydw, o leiaf unwaith y dydd	34	6	31	6	65	6
Ydw, o leiaf unwaith yr wythnos	56	10	19	4	75	7
Ydw, o leiaf unwaith y mis	23	4	11	2	34	3
Ydw, yn llai aml	71	13	29	5	100	9
Nac Ydw, byth	310	57	76	14	386	36
Cyfanswm*	543	99	529	100	1072	99

*Rhif cyfanswm a ymatebodd i'r cwestiwn yma.

Mae'r ddau sampl yn amlwg yn wahanol iawn. Tra bod ymatebwyr S4C yn defnyddio llai ar is-deitlau nag ymatebwyr RNID, maent yn parhau i ddefnyddio mwy ar is-deitlau na'r boblogaeth gyfan. (Mae hyn eto yn debygol o fod yn adlewyrchiad o'r elfen hunan-ddewis a grëir gan yr holiadur.) Awgryma ymchwil blaenorol o'r boblogaeth yn y Deyrnas Unedig mai 5% sy'n defnyddio is-deitlau trwy'r amser.

5.2 rhesymau y defnyddir is-deitlau Saesneg gyda rhaglenni Saesneg.

Dengys Tabl 13 graddau o fyddardod yn ôl y defnydd o is-deitlau.

Tabl 13 Graddau o fyddardod yn ôl y defnydd o is-deitlau.

	Hollol/difrifol fyddar		Trwm eu clyw		Clywed		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%	N	%
Ydw, pan fo'n bosib	275	81	106	45	31	6	412	38
Ydw, o leiaf unwaith y dydd	19	6	17	7	29	6	65	6
Ydw, o leiaf unwaith yr wythnos	10	3	14	6	51	10	75	7
Ydw, o leiaf unwaith y mis	3	1	4	1	27	5	34	3
Ydw, yn llai aml	11	3	21	9	68	14	100	9
Nac Ydw, byth	22	6	75	32	289	58	386	36
Total*	340	100	237	100	495	99	1072	99

*Rhif cyfanswm a atebodd y cwestiwn

¹ Ymchwil omnibus NOP i RNID (Tachwedd 1998) fel yr ymddangosodd yn *Subtitling for Deaf and Hard of Hearing People*, RNID Mehefin 1999

Nid yw'n syndod bod y defnydd o is-deitlo yn cyfateb i'r lefel o golled clyw. Dengys Tabl 14 rhai o resymau pobl dros ddefnyddio is-deitlau Saesneg.

Tabl 14 Rheswm pam fo ymatebwyr yn defnyddio is-deitlau gyda rhaglenni Saesneg

	S4C		RNID Cymru		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%
Oherwydd bod gennyf broblemau clywed	45	8	385	70	430	39
Oherwydd bod pobl ar y teledu yn mwmian llawer/nad yw'n bosib deall pob gair	81	14	139	25	220	20
Oherwydd sŵn cefndir ar y teledu	55	10	107	19	162	14
I osgoi gorfod cynyddu sain y teledu yn rhy uchel	98	17	127	23	225	20
Oherwydd sŵn cefndir yn fy nhŷ	81	14	50	9	131	12
Oherwydd bod rhai acenion a geiriau a ddefnyddir yn anghyfarwydd	56	10	75	14	131	12
Oherwydd nad yw fy Saesneg yn arbennig o dda	5	1	19	3	24	2
Cyfanswm*	565	*	550	*	1115	*

*Ni gwblhaodd pob un o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn ac fe ddiiodd rhai ohonynt mwy nag un blwch. Mae'r canran yn cyfeirio at y sampl cyfan yn hytrach nag i'r nifer a atebodd y cwestiwn.

Roedd o ddeutu 17%-20% o ymatebwyr S4C yn defnyddio is-deitlau am resymau yn ymwneud â cholled clyw, er enghraifft: 'oherwydd bod pobl ar y teledu yn mwmian/nad yw'n bosib deall pob gair' neu 'i osgoi gorfod cynyddu sain y teledu yn rhy uchel' – atebion clasurol gan bobl sy'n dioddef o golled clyw. Roedd pobl fyddar a thrwm eu clyw yn y sampl RNID yn amlwg yn dibynnu ar is-deitlau i wyllo a mwynhau teledu.

5.3 sut y darganfu/darganfydda pobl is-deitlo

Gofynnwyd i ymatebwyr sut y daethant o hyd i is-deitlau capsiwn caeëdig am y tro cyntaf. Darparir yr wybodaeth hyn yn Nhabl 15.

Tabl 15 Sut y darganfu ymatebwyr is-deitlau capsiwn caeëdig

	S4C		RNID Cymru		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%
Trwy'r ysgol/iechyd/proffesiynolion eraill/mudiadau	17	3	72	25	89	17
Trwy deulu/ffrindiau	52	22	88	30	140	27
Trwy hybu ar y sgrîn deledu	142	61	92	32	234	45
Trwy bosteri/hysbysfyrddau/hysbysebion ar bympiau petrol	5	2	3	1	8	2
Trwy bapurau newydd/cylchgronau	51	22	60	21	111	21
Cyfanswm*	232	**	291	**	523	**

*Rhif cyfanswm yn ateb y cwestiwn

**Fe ddiiodd rhai o'r ymatebwyr fwy nag un ateb

Roedd ymatebwyr S4C a atebodd y cwestiwn yn fwy tebygol o ddod i wybod trwy hybu ar y sgrîn, tra bod ymatebwyr RNID yn fwy tebygol i ddod i wybod trwy gysylltiadau proffesiynol neu thrwy deulu a ffrindiau. Fel y gwelir yn nhabl 16 mae'r gwahaniaeth hwn yn seiliedig ar golled clyw y rheini sy'n hollol fyddar neu'n ddifrifol fyddar. Fe ddylai clinigau awdioleg fod yn rhoi gwybod am is-deitlau i bobl fyddar a thrwm eu clyw fel rhan o'r cymorth proffesiynol a gynigir iddynt. Mae hyn yn amlwg wedi digwydd i bobl difrifol fyddar a phobl hollol fyddar ond dim i'r un graddau ar gyfer pobl trwm eu clyw.

Tabl 16 Sut y darganfu ymatebwyr yr is-deitlau capsiwn caeëdig yn ôl eu cyflwr clywed

	Hollol/difrifol fyddar		Trwm eu clyw		Clywed		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%	N	%
Trwy ysgol/iechyd/proffesiynolion eraill/mudiadau	54	27	9	9	23	13	86	18
Trwy deulu/ffrindiau	64	32	26	25	43	25	133	28
Trwy hybu ar y sgrîn deledu	59	29	48	47	98	57	205	43
Trwy bosteri/hysbysfyrdau hysbysebion ar bwmpiau petrol	1		2		5	3	8	2
Trwy bapurau newydd/cylchgronau	42	21	24	24	33	19	99	21
Cyfanswm*	202	**	102	**	172	**	476	**

*Rhif cyfanswm a atebodd y cwestiwn lle roedd lefel y golled clyw yn hysbys.

**Fe ddirodd rhai o'r ymatebwyr mwy nag un ateb.

Casglwyd gwybodaeth ynghylch y ffordd orau i hysbysebu rhaglen sy'n cael ei is-deitlo. Yma eto fe welir gwahaniaethau rhwng sampl S4C a sampl RNID.

Yn Nhabl 17, dywedodd 48% o ymatebwyr difrifol fyddar/hollol fyddar taw papurau newydd a/neu cylchgronau oedd y ffordd orau i ddarganfod pa raglenni oedd yn cael eu his-deitlo a 30% yn dweud hynny am dudalennau Teletesun. Mae hyn yn cymharu ag 14% o bobl sy'n clywed yn dweud taw papurau newydd a/neu cylchgronau oedd y ffordd orau ac 17% yn dweud hynny am dudalennau Teletestun. Gall y gwahaniaeth hwn godi oherwydd fod gwylwyr byddar a thrwm eu clyw yn fwy tebygol o gynllunio eu gwyllo ar sail is-deitlau (gan na fyddant yn medru gwyllo rhaglenni heb is-deitlau), felly mae'n well ganddynt gael yr wybodaeth o bapurau ac/neu oddi ar dudalennau gwybodaeth Teletestun. Mae'n bosib y byddai gweld ar ddechrau darllediad rhaglen bod is-deitlau arni yn dylanwadu ar bobl sy'n medru clywed i ddefnyddio is-deitlau os/gyda maent ar gael. I'r rhain, y wybodaeth ar y sgrîn ar ddechrau'r rhaglen yw'r ffordd orau o ddarganfod is-deitlau (61%).

Tabl 17 Barn pobl am y ffordd orau i ddarganfod pa raglenni sy'n cael eu his-deitlo

	Hollol/difrifol fyddar		Trwm eu clyw		Clywed		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%	N	%
Gwybodaeth ar dudalennau is-deitlo mewn papurau newydd ac/neu cylchgronau	160	48	59	26	53	14	272	26
Gwybodaeth am is-deitlo ar dudalennau gwybodaeth rhaglenni Ceefax/Teletestun	101	30	42	19	65	17	208	20
Gwybodaeth is-deitlo ar y sgrîn ar ddechrau'r rhaglen	120	36	117	52	231	61	468	45
Gwybodaeth ar is-deitlo ar y sgrîn trwy gydol y rhaglen	43	13	39	17	46	12	128	12
Cyfanswm*	331	**	226	**	376	**	1045	**

*Rhif cyfanswm a atebodd y cwestiwn

**Ticiodd rhai o'r ymatebwyr fwy nag un ateb

Mae'r rhai sy'n defnyddio is-deitlo amlaf (mwy nag unwaith yr wythnos) yn defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i sicrhau/darganfod pa is-deitlau sydd ar gael (gweler Tabl 18).

Tabl 18 Barn pobl am y ffordd orau i ddarganfod pa raglenni sy'n cael eu his-deitlo drwy ddefnyddio is-deitlau

Pa mor aml y defnyddia pobl is-deitlau	Unwaith yr wythnos neu fwy		Yn llai aml	
	N	%	N	%
Gwybodaeth ar dudalennau is-deitlo mewn papurau newydd ac/neu cylchgronau	207	38	24	17
Gwybodaeth am is-deitlo ar dudalennau gwybodaeth rhaglenni Ceefax/Teletestun	148	28	20	16
Gwybodaeth is-deitlo ar y sgrîn ar ddechrau'r rhaglen	225	42	78	60
Gwybodaeth is-deitlo ar y sgrîn drwy gydol y rhaglen	78	14	17	13
Cyfanswm*	538	**	129	**

*Rhif cyfanswm a atebodd y cwestiwn.

**Fe dciodd rhai ymatebwyr fwy nag un ateb.

Gofynnwyd i bobl sut y dymunant i'r wybodaeth am is-deitlau capsiwn caeëdig gael ei ddangos – drwy symbol, llythyren (S, T neu C), drwy ddangos gair, neu gyda'r rhifau 888/889. Dymunai 50% o'r gwylywr i'r wybodaeth gael ei dangos gyda'r rhifau 888 neu 889, ac roedd 25% eisiau i'r geiriau 'is-deitlau' neu 'teitlau' gael eu defnyddio.

5.4 defnydd o is-deitlau Saesneg yn y dyfodol

Doedd gan 8% o'r ymatebwyr (90 o bobl) yn yr arolwg ddim teledu gyda Theletestun. Ar y cyfan fe wyddai'r bobl a oedd gyda Teletestun sut i gael gafael ar is-deitlau. (Ymateb i gwestiwn ar sut i gael gafael ar is-deitlau oedd hyn – gan ddefnyddio 888). Tra bo'r niferoedd yn fach, y grŵp mwyaf na wyddai sut i gael gafael ar is-deitlau oedd pobl trwm eu clyw, sef y rhai a dueddai fod yn bobl hŷn. Awgryma hyn y byddai hysbysebu am Deletestun ac is-deitlo wedi ei dargedu at y grŵp yma yn cynyddu eu defnydd hwy o is-deitlo.

Mae'r wybodaeth yn Nhabl 19 yn dangos yr ymateb i'r cwestiwn ynghylch diddordeb pobl mewn defnyddio is-deitlau Saesneg yn y dyfodol (p'run ai y gwyddent amdanynt hyd yn hyn ai peidio).

Tabl 19 Defnydd o is-deitlau Saesneg gyda rhaglenni Saesneg yn y dyfodol

Ddim yn eu defnyddio ond hoffent drïo is-deitlau Saesneg	N		Cyfanswm
	N	%	
S4C	38	7	565
RNID Cymru	42	8	550
Hollol/difrifol fyddar	15	4	349
Trwm eu clyw	32	13	250
Clywed	25	6	397

6. Is-deitlau Saesneg ar raglenni Cymraeg

6.1 is-deitlau capsïwn caeëdig Saesneg ar raglenni Cymraeg

Gofynnwyd wrth ymatebwyr p'run ai yr oeddynt yn defnyddio is-deitlau Saesneg ar gyfer rhaglenni Cymraeg ai peidio. Fe ddefnyddir is-deitlau Saesneg ar gyfer rhaglenni Cymraeg gan bobl sy'n clywed yn ogystal â phobl byddar neu trwm eu clyw er mwyn cynnal eu sgiliau Cymraeg a'u galluogi i ddilyn rhaglen Gymraeg.

Tabl 20 Defnydd o is-deitlau Saesneg gyda rhaglenni Cymraeg

	S4C		RNID Cymru		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%
Ydw, lle bo hynny'n bosib	108	20	259**	51	367	35
Ydw, o leiaf unwaith y dydd	25	5	9	2	34	3
Ydw, o leiaf unwaith yr wythnos	54	10	33	6	87	8
Ydw, o leiaf unwaith y mis	34	6	19	4	53	5
Ydw, yn llai aml	56	10	50	10	106	10
Nac Ydw, byth	257	48	139	27	396	38
Cyfanswm*	543	99	509	100	1043	99

*Rhif cyfanswm a atebodd y cwestiwn yma

**Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu fod 259 neu 51% yn gwylio rhaglenni Cymraeg yn aml ond eu bod yn defnyddio is-deitlau "pan fo hynny'n bosib" ar ba bynnag raglen y maent yn ei gwylio.

O gymharu Tabl 20 gyda Thabl 12, defnyddir is-deitlau Saesneg gyda rhaglenni Saesneg a Chymraeg am resymau gwahanol iawn. Ar raglenni Saesneg fe'u defnyddir gan bobl fyddar a thrwm eu clyw yn bennaf, tra gyda rhaglenni Cymraeg fe'u defnyddir gan bobl nad ydynt yn deall Cymraeg a chan bobl fyddar a phobl trwm eu clyw. Am y rheswm hwn defnyddiai dwywaith gymaint o ymatebwyr S4C yr is-deitlau Saesneg “pan fo hynny'n bosib” tra'n gwyllo rhaglenni Cymraeg. Dywedodd llai o ymatebwyr RNID eu bod yn defnyddio is-deitlau Saesneg ar raglenni Cymraeg nag ar raglenni Saesneg. Y tebyg yw eu bod prin byth yn gwyllo rhaglenni Cymraeg S4C.

Defnyddiai oddeutu 15% o bobl a oedd yn fwy cyfforddus yn defnyddio'r Gymraeg is-deitlau o leiaf unwaith y dydd wrth wyllo rhaglenni Cymraeg.

Tabl 21 Defnydd o is-deitlau Saesneg gyda rhaglenni Cymraeg gan bobl sy'n fwy cyfforddus yn defnyddio'r Gymraeg

Defnydd o is-deitlu Saesneg gyda rhaglenni Cymraeg	I'r rhai y mae Cymraeg yn iaith fwyaf cyfforddus iddynt		Cyfanswm	
	N	%	N	%
Ydw, lle bo hynny'n bosib	40	11	367	35
Ydw, o leiaf unwaith y dydd	14	4	34	3
Ydw, o leiaf unwaith yr wythnos	25	7	87	8
Ydw, o leiaf unwaith y mis	10	3	53	5
Ydw, yn llai aml	29	8	106	10
Nac Ydw, byth	219	61	396	38
Cyfanswm	357		1115	99

Mae Tabl 22 yn cyfeirio at ddefnydd o is-deitlau Saesneg ar gyfer rhaglenni Cymraeg gan bobl sydd â sgiliau Cymraeg da – y rheini a fynegodd eu bod yn medru deall, siarad, ysgrifennu a darllen Cymraeg yn dda iawn neu'n eithaf da (gweler Tabl 10) ac sy'n dynodi eu lefel o golled clyw.

Tabl 22 Pobl â sgiliau Cymraeg da iawn neu eithaf da* yn ôl lefel eu colled clyw a'r defnydd presennol o is-deitlau Saesneg ar raglenni Cymraeg

Graddfa colled clyw**	Defnyddio is-deitlau Saesneg		Ddim yn defnyddio is-deitau		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%
Hollol fyddar	10	8	2	1	12	3
Difrifol fyddar	18	15	5	2	23	7
Trwm eu clyw	33	28	31	14	64	18
Clywed	59	49	187	83	246	71
Cyfanswm**	120	100	225	100	345	99

*Yn seiliedig ar ymatebwyr yn dynodi p'run ai y gallent ddeall, siarad, ysgrifennu a darllen Cymraeg yn dda iawn neu'n eithaf da.

**Yn seiliedig ar ymatebwyr yn dosbarthu'i hunain wrth ateb y cwestiwn, “Nodwch p'run ai yr ydych yn gallu clywed, yn hollol fyddar, yn ddifrifol fyddar neu'n drwm eich clyw”.

O'r ymatebwyr a oedd gyda sgiliau Cymraeg da roedd mwy na chwarter yn fyddar neu'n drwm eu clyw, a dwy ran o dair o'r rheini yn defnyddio is-deitlau Saesneg gyda rhaglenni Cymraeg. Mae Tabl 23 yn ystyried y rhesymau pam fo gwylwyr gyda sgiliau Cymraeg da yn dweud eu bod yn gwyllo rhaglenni Cymraeg gydag is-deitlau Saesneg.

Tabl 23 Rheswm pam y defnyddir is-deitlau Saesneg gyda rhaglenni Cymraeg gan bobl â sgiliau Cymraeg da iawn neu eithaf da.*

	Cyfanswm		Byddar neu trwm eu clyw**		Clywed**	
	N	%	N	%	N	%
Oherwydd bod gennyf broblemau clywed	51	26	48	68	0	0
Oherwydd bod pobl ar y teledu yn mwmian llawer/nid yw'n bosib deall bob gair	52	26	28	40	20	20
I osgoi cynyddu'r sain yn rhy uchel	36	18	17	24	13	13
Oherwydd sŵn cefndir ar y teledu	24	12	15	21	7	7
Oherwydd sŵn cefndir yn fy nhŷ	32	16	4	6	24	23
Oherwydd bod rhai acenion neu eiriau a ddefnyddir yn anghyfarwydd	74	38	20	28	43	42
Oherwydd nad wyf i neu aelodau eraill yn deall digon o Gymraeg	69	36	15	21	47	46
Cyfanswm***	194		70		102	

*Yn seiliedig ar ymatebwyr yn dynodi p'run ai y gallent ddeall, siarad, ysgrifennu a darllen Cymraeg yn dda iawn neu'n eithaf da.

**Yn seiliedig ar ymatebwyr yn dosbarthu'i hunain wrth ateb y cwestiwn, "Nodwch p'run ai yr ydych yn gallu clywed, yn hollol fyddar, yn ddifrifol fyddar neu'n drwm eich clyw".

***Fe ddiiodd rhai ymatebwyr mwy nag un ateb.

Fe ddengys Tabl 23 fod o ddeutu 20% o bobl sy'n dynodi eu bod yn clywed yn defnyddio is-deitlau am resymau yn ymwneud â phroblemau clyw – "mae pobl ar y teledu yn mwmian, a sŵn cefndir ar y teledu", tra bod 42-46% yn eu defnyddio oherwydd acenion ac/neu er budd aelodau eraill eu teulu.

6.2 is-deitlau capsiwn agored Saesneg

Cynlluniwyd yr arolwg i ddiffinio barn yr ymatebwyr am is-deitlau capsiwn agored. Mae S4C yn darparu rhain ar gyfer rhai rhaglenni Cymraeg poblogaidd neu rhai rhaglenni Cymraeg a ail-ddarlledir megis *Pobol y Cwm*² ar ddydd Sul.

Tabl 24 Barn ymatebwyr am is-deitlau capsiwn agored (is-deitlau wedi'u llosgi mewn)

	S4C		RNID Cymru		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%
Rwy'n eu hoffi bob amser	72	13	279	54	351	33
Rwy'n eu hoffi weithiau (er enghrafft ar raglenni ar S4C megis <i>Pobol y Cwm</i> ar ddydd Sul)	148	27	61	12	209	20
Does dim ots gennyf y naill ffordd neu'r llall	165	30	142	27	307	29
Dydw i ddim yn hoff ohonynt ac maent yn gallu tarfu ar fy mwynhad	161	29	38	7	199	19
Cyfanswm*	546	99	520	100	1066	101

Mae yna leiafrif o ymatebwyr nad ydynt yn hoff o is-deitlau capsiwn agored. Fe duedda'r rhain i fod yn bobl sy'n gallu clywed. Mae pobl sy'n defnyddio is-deitlau capsiwn caeedig hefyd yn hoffi is-deitlau capsiwn agored.

7. Is-deitlau Cymraeg ar gyfer Dysgwyr ar raglenni Cymraeg

7.1 y defnydd presennol o is-deitlau Cymraeg ar gyfer Dysgwyr

Cyflwyno Tabl 25 wybodaeth ar y defnydd o is-deitlau Cymraeg ar gyfer Dysgwyr. Fel y gwelir roedd 483, sef 43% o ymatebwyr yn ymwybodol o'r gwasanaeth – 61% o ymatebwyr S4C a 25% o ymatebwyr RNID.

Tabl 25 Y defnydd presennol o is-deitlau Cymraeg ar gyfer Dysgwyr* gan y rheini sy'n ymwybodol ohonynt

	S4C		RNID Cymru		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%
Defnyddio	107	31	40	29	147	30
Ddim yn defnyddio	237	69	99	71	338	70
Cyfanswm*	344	100	139	100	483	100

*Noder fod y cyfanswm o 483 o ymatebwyr yn adlewyrchu y nifer sy'n ymwybodol o is-deitlau Cymraeg ar gyfer Dysgwyr.

² Opera sebon Gymraeg ar y teledu yw *Pobol y Cwm*, ac fe'i dangosir o ddydd Llun i ddydd Gwener gydag ail-ddarllediad ar ddydd Sul. Mae gan y rhaglen omnibws is-deitlau capsiwn agored.

Edrycha Tabl 26 ar y defnydd o is-deitlau Cymraeg ar gyfer Dysgwyr ar raglenni Cymraeg gan bobl gyda sgiliau Cymraeg da a nododd eu bod yn medru deall, siarad, ysgrifennu a darllen Cymraeg yn dda iawn neu'n eithaf da (gweler Tabl 10). Dynodir graddfa colled clyw yma.

Tabl 26 Pobl â sgiliau Cymraeg da iawn neu eithaf da* yn ôl lefel colled clyw a'u defnydd o is-deitlau Cymraeg ar gyfer Dysgwyr ar raglenni Cymraeg

Graddfa colled clyw**	Defnyddio is-deitlau Cymraeg ar gyfer Dysgwyr		Ddim yn defnyddio is-deitlau		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%
Hollol fyddar	5	6	2	1	7	3
Difrifol fyddar	16	20	5	3	21	8
Trwm eu clyw	9	11	25	13	34	12
Clywed	51	63	161	83	212	77
Cyfanswm	81	100	193	100	274	100

*Yn seiliedig ar ymatebwyr yn dynodi p'run ai y gallent ddeall, siarad, ysgrifennu a darllen Cymraeg yn dda iawn neu'n eithaf da.

**Yn seiliedig ar ymatebwyr yn dosbarthu'i hunain wrth ateb y cwestiwn, "Nodwch p'run ai yr ydych yn gallu clywed, yn hollol fyddar, yn ddifrifol fyddar neu'n drwm eich clyw".

Roedd traean o'r rheini gyda sgiliau Cymraeg da yn defnyddio is-deitlau Cymraeg ar gyfer Dysgwyr – a thraean o'r rhain yn bobl â cholled clyw. Fe roddir y rheswm pam fod pobl â sgiliau Cymraeg da yn defnyddio is-deitlau Cymraeg ar gyfer Dysgwyr yn Nhabl 27.

Tabl 27 Rheswm pam fo bobl â sgiliau Cymraeg da iawn neu eithaf da* yn defnyddio is-deitlau Cymraeg ar gyfer Dysgwyr gyda rhaglenni Cymraeg

	Cyfanswm		Byddar neu'n Drwm eu Clyw**		Clywed**	
	N	%	N	%	N	%
Oherwydd bod gennyf broblemau clywed	22	24	21	70	0	0
Oherwydd bod pobl ar y teledu yn mwmian llawer/eu bod hi'n anodd deall bob gair	27	30	7	23	17	36
Oherwydd sŵn cefndir ar y teledu	13	14	5	17	5	11
Oherwydd sŵn cefndir yn fy nhŷ	19	21	3	10	13	28
Oherwydd bod rhai acenion neu eiriau a ddefnyddir yn anghyfarwydd	33	36	9	30	20	42
Oherwydd nad wyf i neu aelodau eraill o'r teulu yn deall digon o Gymraeg	10	11	2	7	7	15
Oherwydd fy mod i neu aelodau eraill o fy nheulu yn dysgu Cymraeg	29	32	4	13	17	36
Cyfanswm***	91		30		47	

*Yn seiliedig ar ymatebwyr yn dynodi p'run ai y gallent ddeall, siarad, ysgrifennu a darllen Cymraeg yn dda iawn neu'n eithaf da.

**Yn seiliedig ar ymatebwyr yn dosbarthu'i hunain wrth ateb y cwestiwn, "Nodwch p'run ai yr ydych yn gallu clywed, yn hollol fyddar, yn ddifrifol fyddar neu'n drwm eich clyw".

***Fe ddiiodd rhai ymatebwyr fwy nag un ateb.

Defnyddia pobl fyddar a thrwm eu clyw is-deitlau Cymraeg ar gyfer Dysgwyr oherwydd eu colled clyw. Fe ddefnyddia llawer o bobl sy'n gallu clywed yr is-deitlau hyn, er mwyn deall acenion a geiriau anghyfarwydd yn ogystal ag oherwydd colled clyw.

7.2 defnydd o is-deitlau Cymraeg ar gyfer Dysgwyr yn y dyfodol

Mae yna lawer o bobl yn parhau i beidio â defnyddio is-deitlau Cymraeg ar gyfer Dysgwyr, gyda llawer o'r rhain yn dweud fod ganddynt ddiddordeb mewn rhoi cynnig ar y gwasanaeth.

Tabl 28 Defnydd o is-deitlau Cymraeg ar gyfer Dysgwyr yn y dyfodol

Ddim yn eu defnyddio ond a fyddai'n hoffi rhoi cynnig ar yr is-deitlau Cymraeg ar gyfer Dysgwyr	N		Cyfanswm
	N	%	
S4C	110	19	565
RNID Cymru	128	23	550
Hollol/Difrifol fyddar	70	20	349
Trwm eu clyw	58	23	250
Clywed	84	21	397
Cymraeg yr iaith fwyaf cyffyrddus iddynt	44	12	357

Bydd mwy o hysbysebu yn cynyddu'r defnydd o'r gwasanaeth hwn a nid yn unig gan ddysgwyr Cymraeg.

8. Diddordeb a gallu i ddefnyddio is-deitlau cynhwysfawr Cymraeg yn y dyfodol

Fe hoffai mwy na thraean o ymatebwyr S4C ddefnyddio neu roi cynnig ar is-deitlau cynhwysfawr Cymraeg fel y gwelir yn Nhabl 29.

Tabl 29 Diddordeb mewn defnyddio is-deitlau cynhwysfawr Cymraeg

	S4C		RNID Cymru		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%
Oes	141	25	41	7	182	16
Hoffwn roi cynnig ar yr is-deitlau	88	16	53	10	141	13
Ddim yn gwybod	50	9	55	10	105	9
Na	81	14	231	42	312	28
Ddim yn effeithio arnaf i	177	31	126	23	303	27
Dim ymateb	28	5	44	8	72	6
Cyfanswm	565	100	550	100	1115	99

Tabl 30 Diddordeb mewn defnyddio is-deitlau cynhwysfawr Cymraeg yn ôl sgiliau Cymraeg

	Cyfanswm	Sgiliau Cymraeg da iawn neu eithaf da		Rhywfaint o grap ar y Cymraeg		Dim Cymraeg	
		N	%	N	%	N	%
Oes/Hoffwn roi cynnig ar yr is-deitlau	323	182	37	107	43	34	9
Ddim yn gwybod	105	32	6	44	18	29	8
Na/Ddim yn effeithio arnaf/Dim ymateb	687	274	56	96	39	317	83
Cyfanswm	1115	488	99	247	100	380	100

Mae 182 o bobl – 56% o'r rheini sy'n dweud yr hoffent gael neu roi cynnig ar yr is-deitlau cynhwysfawr Cymraeg – yn debygol o fod â'r sgiliau Cymraeg a fyddai'n eu galluogi i'w defnyddio. Mae Tabl 31 yn manylu ar y nifer gyda'r sgiliau angenrheidiol sydd â cholled clyw.

Tabl 31 Awydd pobl â sgiliau Cymraeg da iawn neu eithaf da* i ddefnyddio is-deitlau cynhwysfawr Cymraeg gyda rhaglenni Cymraeg yn ôl colled clyw

	Oes/hoffwn roi cynnig ar yr is-deitlau		Ddim yn gwybod		Na		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%	N	%
Hollol/Difrifol fyddar	25	14	2	6	15	5	42	9
Trwm eu clyw	29	16	6	19	41	15	76	16
Clywed	105	58	19	59	183	67	307	63
Lefel o golled clyw ddim yn hysbys	23	13	5	16	35	13	63	13
Cyfanswm	182	101	32	100	274	100	488	101

**Yn seiliedig ar ymatebwyr yn dosbarthu'i hunain wrth ateb y cwestiwn, “Nodwch p'run ai yr ydych yn gallu clywed, yn hollol fyddar, yn ddifrifol fyddar neu'n drwm eich clyw”.

Dymunai 182 o bobl, sef 16% o'r holl ymatebwyr, yn dymuno cael is-deitlau cynhwysfawr Cymraeg ac hefyd gyda'r sgiliau cymraeg i'w galluogi i defnyddio'r is-deitlau. O'r bobl hyn, mae gan 30% golled clyw a fyddai'n peri iddynt beidio â mwynhau'r rhaglenni yn Gymraeg hebddynt. Fe adlewyrcha hyn 5% o'r sampl gyfan. O'r bobl sy'n medru clywed ac sydd gyda sgiliau Cymraeg da, fe hoffai 34% gael is-deitlau cynhwysfawr Cymraeg.

9. Diweddglo

Dynoda'r ymchwil bod traean o'r ymatebwyr sydd gyda'r gallu i ddarllen is-deitlau cynhwysfawr Cymraeg yn awyddus iddynt gael eu darlledu. Mae 11% o'r un grŵp (ymatebwyr gyda'r gallu i ddarllen is-deitlau cynhwysfawr Cymraeg) yn fyddar neu'n drwm eu clyw a felly angen is-deitlau i fwynhau'r rhaglen yn Gymraeg.

Yn y sampl cyfan, roedd 5% o'r ymatebwyr a oedd yn fyddar neu'n drwm eu clyw eisiau is-deitlau Cymraeg a gyda'r sgiliau Cymraeg a fyddai'n eu galluogi i ddefnyddio gwasanaeth is-deitlo cynhwysfawr Cymraeg. Tra bod diwallu anghenion 5% yn ymddangos fel diwallu anghenion lleiafrif bach o'r gwylwyr, mae'r ganran yn debyg i'r ganran o wylwyr yn y Deyrnas Unedig sy'n defnyddio is-deitlau Saesneg ar y prif sianeli Saesneg³.

³ Ymchwil omnibus NOP i RNID (Tachwedd 1998) fel yr ymddangosodd yn *Subtitling for Deaf and Hard of Hearing People*, RNID Mehefin 1999.

Is-deitlau ar y teledu

Beth yw'ch barn?

Mae S4C yn mynd ar y cyd â'r Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol i Bobl fyddar (RNID) Cymru er mwyn darganfod eich barn chi am is-deitlau. Drwy roi gwybod inni beth yw eich barn am y gwasanaeth is-deitlau, fe allech fod o help mawr inni wrth wella'r gwasanaeth yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, ychydig iawn o raglenni sy'n dangos is-deitlau ar y sgrîn yn barhaol. (Mae'r rhain yn cynnwys *Songs of Praise* ar BBC1, ac omnibws *Pobol y Cwm* ar S4C). 'Capsiynau agored' yw'r term ar gyfer teitlau fel hyn, er bod llawer yn sôn am deitlau 'wedi'u llosgi i mewn'. Gyda llawer o raglenni, ni welwch is-deitlau oni bai'ch bod yn dewis y rhaglenni teletestun *Teletext* neu *Ceefax*. Ar dudalen 888 bydd yr is-deitlau hyn i'w cael fel arfer, ac fe'u gelwir yn is-deitlau 'capsiwn caeëdig'.

Is-deitlau ar y teledu

1. Ydy'ch teledu yn derbyn teletestun – sef y gwasanaethau *Ceefax* a *Teletext*?

Ydy Ddim yn gwybod
Nac ydy

2. A wyddoch sut i gael hyd i'r gwasanaethau *Ceefax* a *Teletext* (gan ddewis 888 neu 889)?

Gwn Na Wn

3. A glywsoch am is-deitlau capsiwn caeëdig?

Gwn Na Wn

Os felly, sut y clywsoch amdanynt?

Drwy'r ysgol/gweithwyr iechyd/pobl broffesiynol eraill/mudiad 1
Drwy deulu/ffrindiau 2
Drwy hysbysebion ar y teledu 3
Drwy bosteri/hysbysfyrddau/hysbysebion pwmp petrol 4
Drwy bapurau/cylchgronau 5

4. Beth yw'ch teimlad am is-deitlau na allwch mo'u diffodd?

Yn eu hoffi bob amser
Yn eu hoffi weithiau (er enghraifft ar raglenni Cymraeg fel omnibws *Pobol y Cwm* ar Ddydd Sul)
Dim ots y naill ffordd na'r llall
Ddim yn eu hoffi gan eu bod yn tarfu ar fy mwynhad

Ticiwch yma os hoffech wybod mwy am is-deitlau

Eich defnydd o is-deitlau

5. A fyddwch yn defnyddio'r is-deitlau ar dudalennau *Ceefax* a *Teletext* wrth wyllo rhaglenni Saesneg ar unrhyw sianel deledu?

- | | | | | | |
|-----------------------------|--------------------------|---|-------------------------|--------------------------|---|
| Bob cyfle a gaf | <input type="checkbox"/> | 1 | O leiaf unwaith bob mis | <input type="checkbox"/> | 4 |
| O leiaf unwaith bob dydd | <input type="checkbox"/> | 2 | Yn llai aml na hynny | <input type="checkbox"/> | 5 |
| O leiaf unwaith bob wythnos | <input type="checkbox"/> | 3 | Byth | <input type="checkbox"/> | 6 |

Os felly, pam fyddwch yn gwyllo is-deitlau Saesneg ar **raglenni Saesneg?** (ticiwch y rhai cywir)

- | | | | | | |
|--|--------------------------|---|--|--|--|
| Am fod problemau clyw gyda fi | <input type="checkbox"/> | 1 | | | |
| Am fod llefaru pobl teledu yn aneglur weithiau | <input type="checkbox"/> | 2 | | | |
| Am fod gormod o sŵn cefndir ar y teledu | <input type="checkbox"/> | 3 | | | |
| Am fod gormod o sŵn cefndir yn fy nhŷ | <input type="checkbox"/> | 4 | | | |
| Am fod rhai acenion neu eiriau yn anghyfarwydd | <input type="checkbox"/> | 5 | | | |
| Er mwyn osgoi troi'r sain i fyny yn rhy uchel | <input type="checkbox"/> | 6 | | | |
| Am nad yw fy Saesneg yn rhy dda | <input type="checkbox"/> | 7 | | | |

6. A fyddwch yn defnyddio'r is-deitlau Saesneg (888) ar *Teletext* wrth wyllo rhaglenni teledu Cymraeg?

- | | | | | | |
|-----------------------------|--------------------------|---|-------------------------|--------------------------|---|
| Bob cyfle a gaf | <input type="checkbox"/> | 1 | O leiaf unwaith bob mis | <input type="checkbox"/> | 4 |
| O leiaf unwaith bob dydd | <input type="checkbox"/> | 2 | Yn llai ami na hynny | <input type="checkbox"/> | 5 |
| O leiaf unwaith bob wythnos | <input type="checkbox"/> | 3 | Byth | <input type="checkbox"/> | 6 |

Os felly, pam fyddwch yn gwyllo is-deitlau Saesneg ar **raglenni Cymraeg?** (ticiwch y rhai cywir)

- | | | | | | |
|--|--------------------------|---|---|--------------------------|---|
| Am fod problemau clyw gyda fi | <input type="checkbox"/> | 1 | Am fod rhai acenion neu eiriau yn anghyfarwydd | <input type="checkbox"/> | 5 |
| Am fod llefaru pobl teledu yn aneglur weithiau | <input type="checkbox"/> | 2 | | | |
| Am fod gormod o sŵn cefndir ar y teledu | <input type="checkbox"/> | 3 | Am fy mod i neu aelodau o'm teulu ddim yn deall digon o Gymraeg | <input type="checkbox"/> | 6 |
| Am fod gormod o sŵn cefndir yn fy nhŷ | <input type="checkbox"/> | 4 | Er mwyn osgoi troi'r sain i fyny yn rhy uchel | <input type="checkbox"/> | 7 |

7. A wyddoch fod is-deitlau Cymraeg i ddysgwyr i'w cael ar dudalen 889?

- | | | | | | |
|-----|--------------------------|--|-------|--------------------------|--|
| Gwn | <input type="checkbox"/> | | Na wn | <input type="checkbox"/> | |
|-----|--------------------------|--|-------|--------------------------|--|

8. A fyddwch yn gwyllo is-deitlau Cymraeg (889) ar *Teletext* pan fyddwch yn gwyllo rhaglenni Cymraeg?

- | | | | | | |
|--------|--------------------------|---|-----------|--------------------------|---|
| Byddaf | <input type="checkbox"/> | 1 | Na Fyddaf | <input type="checkbox"/> | 4 |
|--------|--------------------------|---|-----------|--------------------------|---|

Os felly, pam fyddwch yn gwyllo is-deitlau (889) ar raglenni **Cymraeg?** (ticiwch y rhai cywir)

- | | | | | | |
|--|--------------------------|---|--|--------------------------|---|
| Am fod problemau clyw gyda fi | <input type="checkbox"/> | 1 | Am fy mod i neu eraill yn y teulu heb ddeall digon o Gymraeg | <input type="checkbox"/> | 5 |
| Am fod llefaru pobl teledu yn aneglur weithiau | <input type="checkbox"/> | 2 | | | |
| Am fod gormod o sŵn cefndir teledu | <input type="checkbox"/> | 3 | Am fy mod i neu eraill yn y teulu yn dysgu Cymraeg | <input type="checkbox"/> | 6 |
| Am fod gormod o sŵn cefndir yn fy nhŷ | <input type="checkbox"/> | 4 | Am fod rhai acenion neu eiriau yn anghyfarwydd | <input type="checkbox"/> | 7 |

9. P'un o'r rhain yn eich barn chi yw'r ffordd orau i ddarganfod a oes is-deitlau ar raglen neu beidio? (ticiwch un):

- Gwybodaeth am dudalennau is-deitlau mewn papurau neu gylchgronau 1
- Gwybodaeth am is-deitlau ar dudalennau gwybodaeth *Ceefax/Teletext* 2
- Gwybodaeth am is-deitlau ar y sgrîn ar ddechrau'r rhaglen 3
- Gwybodaeth am is-deitlau ar y sgrîn drwy gydol y rhaglen 4

10. Sut yr hoffech i'r wybodaeth am is-deitlau gael ei dangos?

- Drwy symbol 1 Drwy air fel *Is-deitlau* neu *Deitlau* 3
- Drwy lythyren fel S, T neu C 2 Drwy'r rhifau 888/889 4

Eich defnydd o is-deitlau yn y dyfodol

11. A hoffech/fwriadwch ddefnyddio is-deitlau Saesneg yn y dyfodol?

- Defnyddiaf hwy eisoes a bwriadaf barhau i wneud 1
- Ni ddefnyddiaf hwy ar hyn y bryd ond hoffwn roi cynnig 2
- Gwn am is-deitlau ond nid wyf yn eu hoffi 3
- Nid oes gennyf ddiddordeb mewn is-deitlau Saesneg 4

12. A hoffech/fwriadwch ddefnyddio is-deitlau Cymraeg i ddysgwyr yn y dyfodol?

- Defnyddiaf hwy eisoes a bwriadaf barhau i wneud 1
- Ni ddefnyddiaf hwy ar hyn o bryd ond hoffwn roi cynnig 2
- Gwn am is-deitlau ond nid wyf yn eu hoffi 3
- Nid oes gennyf ddiddordeb mewn is-deitlau Cymraeg i ddysgwyr 4

13. A hoffech is-deitlau Cymraeg sy'n dangos bob gair sy'n cael ei dweud?

- Hoffwn 1 Ddim yn gwybod 4
- Na hoffwn 2 Ddim yn effeithio arnaf 5
- Carwn roi cynnig 3

Gwyllo'r teledu

14. Os na fyddwch yn defnyddio is-deitlau, pam lai (ticiwch un)

- Dim angen/ddim yn eu hoffi 1 Ddim yn gwybod sut i'w cyrraedd, ond hoffwn roi cynnig 4
- Dim is-deitlau ar fy nheledu 2 Methu'u gweld 5
- Ddim yn gwybod sut i'w cyrraedd, a dim diddordeb 3 Methu'u dilyn 6

15. A fyddwch yn defnyddio unrhyw un o'r rhain wrth wyllo'r teledu?

- Teclyn clyw 1 Cymorth clyw teledu/dolen anwytho 4
- Troi'r sain i fyny 2 Arall 5
- Darllen gwefusau 3 Ddim un o'r rhain 6

Os nad ydych yn defnyddio un o'r uchod ond hoffech wybod mwy am ddyfeisiadau gwranddo ar y teledu, ticiwch yma

Amdanoch chi

16. Oes problemau clyw gyda chi? Er enghraifft, a fyddwch yn cael anhawster wrth ddilyn beth mae pobl yn ei ddweud, neu wrth glywed y teledu?

Na fyddaf Byddaf

17. Oedran

24 neu iau 1 45 i 64 3
25 i 44 2 65 neu drosodd 4

18. Rhyw

Gwryw Benyw

19. Gyda pha iaith y byddwch yn teimlo yn fwyaf cyffyrddus? (ticiwch dim ond un)

Cymraeg 1 iaith arwyddion Prydain 4
Saesneg 2 iaith arwyddion arall 5
Iaith lafaredig arall 3

20. P'un o'r brawddegau hyn sy'n disgrifio orau eich medr yn y Gymraeg? (ticiwch dim ond un)

Medraf ddeall, siarad, ysgrifennu a darllen Cymraeg yn arbennig o dda 1
Medraf ddeall, siarad, ysgrifennu a darllen Cymraeg yn eithaf da 2
Medraf ddeall, siarad, ysgrifennu a darllen ychydig o Gymraeg 3
Medraf ddeall a siarad peth Cymraeg 4
Medraf ddeall ychydig o Gymraeg 5
Ni fedraf ddeall na siarad Cymraeg 6

21. A fedrwch ddarllen Cymraeg?

Medraf – yn rhugl 1 Medraf – gydag ymdrech 3
Medraf – yn ddigonol 2 Na fedraf 4

Os medrwch, p'un o'r rhain byddwch yn ei ddarllen yn Gymraeg? (ticiwch gymaint ag sydd yn bethnasol)

Llyfrau 1 Llythyrau/gohebiaeth 4
Papurau newydd 2 Ffurflenni/taflenni 5
Cylchgronau 3 Ddim un o'r uchod 6

22. P'un o'r rhain sy'n eich disgrifio orau?

Yn clywed 1 Yn ddifrifol fyddar 3
Yn hollol fyddar 2 Yn drwm eich clyw 4

Byddai Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol i Bobl fyddar (RNID) yng Nghymru yn hoffi cefnogi eich amcanion a gweithio gyda chi. Os hoffech gael gwybod mwy am RNID Cymru, ticiwch yma

Os dywedwch yn yr holiadur fod gennych awydd rhagor o wybodaeth am is-deitlau ar y teledu, am ddyfeisiadau gwrando ar y teledu neu am RNID, bydd angen eich cyfeiriad arnom er mwyn cysylltu â chi eto. Fe gadwn eich enw a'ch cyfeiriad yn gyfrinachol. Ni chânt eu rhoi i neb arall.

Enw _____

Cyfeiriad _____

Côd Post _____

Diolch yn fawr am gymryd rhan yn yr arolwg yma.

Byddwch gystal â defnyddio'r amlen Rhadbost a ddaw gyda hyn neu anfon yr holiadur at:

Holiadur Is-deitlo Cymru
RHADBOST SW1684, RNID Cymru
3ydd Llawr, 33-35 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9HB

Bydd RNID weithiau am anfon gwybodaeth atoch am rannau eraill o'i waith. Ticiwch os yw'n well gennych beidio â'i derbyn